Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Dwyran
# Dwyran
# Llanfairpwllgwyngyll
# LL61 6AQ

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru


**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 26/07/2017**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd Gymunedol yw Ysgol Dwyran sy'n gwasanaethu'r pentref lleol a'r ardal wledig gyfagos. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw tua 72% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg, ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 42 o ddisgyblion ar y gofrestr. Ar hyn o bryd, nid oes disgyblion yn y dosbarth meithrin. Fe'u haddysgir gan ddwy athrawes amser llawn a dwy ran-amser.

Mae tua 25% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 41% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na chanrannau Cymru. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Hydref 2016. Mae hefyd yn bennaeth ar ddwy ysgol gyfagos arall sy'n cydweithio o fewn partneriaeth. Ymhen amser, bydd pedair ysgol ar safle newydd yn ymuno fel ysgol newydd Santes Dwynwen. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Dwyran yn 2016-2017 yn £4,707. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £13,429 a'r lleiafswm yw £2,902. Mae Ysgol Gymuned Dwyran yn y 18fed safle o'r 47 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

**Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:**

- llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- rhan fwyaf o'r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn dangos parch amlwg at ei gilydd ac at oedolion
- yr ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu i'r disgyblion
- gan athrawon ac oedolion eraill berthynas waith fuddiol â'i gilydd a chyda'r disgyblion
- athrawon a chymorthyddion yn rhoi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol
- ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion

**Fodd bynnag:**

- nid yw safonau disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn ddigon cadarn, yn enwedig eu medrau darllen
- nid yw egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn
- nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon manwl i sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm
- nid yw'r llywodraethwyr yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon effeithiol

## Rhagolygon gwella

**Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:**

- y pennaeth yn rhoi arweiniad clir a chadarn i'r ysgol
- aelodau staff y tair ysgol uno yn cydweithio i gynllunio ar gyfer codi safonau
- prosesau hunanarfarnu effeithiol yn bodoli sy'n galluogi'r ysgol i adnabod a gwerthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus
- cynllun datblygu'r ysgol yn fanwl a chynhwysfawr, gyda blaenoriaethau a thargedau gwella wedi eu nodi'n glir i godi safonau
- yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaid ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion
- yr ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref

## Argymhellion

A1 Codi safonau cyffredinol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig medrau darllen

A2 Datblygu ymhellach fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu’n llawn

A4 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain

A5 Sicrhau bod adborth athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith

A6 Datblygu ymhellach rôl monitro y llywodraethwyr i herio’r ysgol am eu pherfformiad

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o'r disgyblion fedrau sylfaenol sy'n is na'r disgwyl. O ystyried eu man cychwyn, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn dangos bod llawer, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu medrau gwrando addas ac yn canolbwyntio'n briodol am gyfnodau byr. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn siarad yn glir am ddigwyddiadau o fewn eu profiad ac yn cynnig sylwadau perthnasol am eu tasgau. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud ar oedolion a chyfoedion yn ystod y cyfnodau dysgu. Maent yn cyfrannu'n awyddus mewn trafodaethau ac yn mynegi barn ddeallus. Mae llawer yn meddu ar eirfa eang ac yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon cyson mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd gyda lefel briodol o gywirdeb ac yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau darllen llawer o ddisgyblion. Ychydig o'r disgyblion sy'n darllen gyda rhuglder ac nid ydynt yn hyderus wrth drafod a mynegi barn am lyfrau nac awduron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder yn y ddwy iaith. Maent yn trafod cynnwys llyfrau'n dda gan fynegi barn aeddfed am wahanol awduron. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ffynonellau amrywiol yn hyderus i ymchwilio am wybodaeth berthnasol am destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dechrau gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio ansoddeiriau'n briodol, amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gywir. Mae llawer yn ysgrifennu'n addas i'w hoed a'u gallu ar draws y meysydd dysgu gydag ychydig yn ysgrifennu'n ddeallus wrth greu ffeil ffeithiau am eliffantod Affrica ac Asia. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n llwyddiannus i amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd yn y ddwy iaith ac maent yn ddefnyddio atalnodi cywir ac ystod gynyddol o ansoddeiriau, cymariaethau a geirfa ddiddorol. Mae medrau llythrennedd yn datblygu'n dda ar draws y cwricwlwm, gydag enghreifftiau niferus o waith estynedig, fel portread o wraig oedrannus o'r Almaen, storïau creadigol, dyddiadur dyddiol Branwen a llythyr o gŵyn i archfarchnad leol. Mae cyflwyniad gwaith a safon llawysgrifen llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn uchel.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn darllen, deall ac ysgrifennu rhifau hyd at

100, ac yn cyfrif yn ôl a blaen yn gywir. Maent yn defnyddio unedau safonol yn gywir, er enghraifft i fesur trwnc eliffant mewn centimetrau. Mae gan lawer ddealltwriaeth dda o briodweddau siapiau dau a thri dimensiwn. Maent yn casglu gwybodaeth a'i throsglwyddo'n llwyddiannus i ffurf graff, er enghraifft am eu hoff liwiau. Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau dangos dealltwriaeth briodol o ffracsiynau syml. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio pwynt degol yn gywir. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datrys problemau mathemategol yn hyderus. Maent yn mesur tymheredd yn ystod y dydd ac yn trosglwyddo'r wybodaeth yn drefnus i greu graff priodol. Maent yn mesur a phwyso cynhwysion yn gywir i greu cacennau i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o briodweddau siapiau rheolaidd ac afreolaidd, ac yn adnabod cymesuredd a chyfesurynnau yn wybodus. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o werth lle a gwaith rhif estynedig. Mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau pen i ddatrys ffeithiau lluosi. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau yn gyson ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth gynllunio taith o ogledd Cymru i'r de.

Mae gwaith TGCh yn datblygu yn briodol yn y Cyfnod Sylfaen. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llechen electroneg yn hyderus at wahanol ddibenion. Mae llawer yn mewngofnodi cyfeiriadau yn gywir i lunio taith tegan electronig o gwmpas map o'r dref. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn briodol, creu graffiau am hoff liwiau ac ymchwilio ar y rhyngrwyd gyda chymorth i amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r pamffledi a gynlluniwyd am eliffantod Affrica ac Asia.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau TGCh yn briodol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o raglenni'n bwrpasol i gyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio meddalwedd yn fedrus i gyflwyno canlyniad ymchwiliadau gwyddonol. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth chwilio ar y we am wybodaeth am Santes Dwynwen a Llywelyn Ein Llyw Olaf. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau ymchwiliol a llythrennedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth llawer o'r disgyblion o sut i ddefnyddio codio, rheoli a codau QR yn ddigon cadarn. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae nifer y disgyblion wedi bod yn isel. O ganlyniad, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau ystyrlon wrth eu hystyried. Mae canlyniadau un neu ddau ddisgybl, ar adegau, yn gallu dylanwadu llawer ar berfformiad y garfan gyfan. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnodi'r ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol mewn iaith a mathemateg ar y deilliant disgwyliedig wedi bod yn is o gamharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch mewn iaith ar y cyfan wedi bod yn uwch ond yn is mewn mathemateg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyfan wedi bod yn uwch nag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi bod yn gyson is ym mhob pwnc.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae gan bron pob un disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini.

Mae safon ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn uchel. Maent yn dangos parch amlwg at ei gilydd ac at oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Wrth symud drwy'r ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn dod yn gynyddol wybodus am ba mor dda maent yn ei gyflawni, ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn trafod eu meini prawf llwyddiant yn hyderus.

Mae mwyafrif y disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn falch o'u hymdrechion wrth godi arian at nifer o elusennau fel Plant Mewn Angen, Diwrnod Trwynau Coch a ward y plant yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r cyngor eco wedi ymgyrchu yn y pentref drwy ddosbarthu posteri a phamffledi i geisio atal baw ci ar y palmentydd. Fodd bynnag, nid yw llais y plentyn yn cael digon o sylw ynglŷn â'u gwaith ac nid ydynt yn chwarae rôl ddigon gweithredol ym mhenderfyniadau'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu a diddori trigolion y pentrefi cyfagos drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau yn yr eglwys leol a gwahodd aelodau'r gymuned i wasanaethau a chyngherddau yn yr ysgol.

Mae lefel presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf wedi amrywio o fod yn y 50% uwch mewn dwy allan o'r pedair blynedd diwethaf ac yn y 50% is mewn dwy arall o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol sy'n ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Maent yn gytbwys a diddorol ac yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau addasu'r cynlluniau mewn partneriaeth gyda'r ysgolion uno i wella dilyniant a datblygiad yng ngwaith y disgyblion. Mae'n rhy gynnar i fesur effaith y newidiadau hyn ar ddeilliannau'r disgyblion. Nid yw'r ysgol wedi mabwysiadu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn ddigon cadarn ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu a chymhwyso medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn briodol. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws yr ystod o bynciau.

Mae amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol ar gael i'r disgyblion, sy'n cyfoethogi eu profiadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau i Oriel Môn, Eglwys Llangeinwen a choedwigoedd sy'n gwarchod cynefin y wiwer goch yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion hanesyddol ac amgylcheddol eu hardal yn llwyddiannus.

Mae cyfleoedd addas i'r disgyblion ddysgu am draddodiadau, hanes a diwylliant Cymru. Maent yn astudio gwaith arlunydd lleol ac yn dathlu dydd Santes Dwynwen a dydd Gŵyl Dewi Sant. Prin yw'r cyfleoedd i astudio gwaith llenorion a cherddorion adnabyddus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol ar draws y cwricwlwm. Caiff y disgyblion gyfleoedd addas i ddysgu am wledydd a diwylliannau eraill fel yr Affrig, Sbaen a Ffrainc. Mae'r pwyllgor eco yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu yn addas.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan athrawon ac oedolion eraill berthynas waith fuddiol â'i gilydd a chyda'r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i roi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol. Ar y cyfan, mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda. Maent yn modelu iaith yn dda, ond nid ydynt bob amser yn annog disgyblion ddigon i gyfathrebu yn y Gymraeg tu mewn a thu allan i'r dosbarth.

Yn y rhan fwyaf o wersi ble mae'r addysgu yn dda, mae'r athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn glir ac yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog, mae rhediad y gwersi yn dda ac mae athrawon yn holi'n effeithiol. Fodd bynnag, mae tueddiad i athrawon ar draws yr ysgol or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd iddynt gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ganmoliaeth ac maent yn cymell y disgyblion i ymdrechu trwy gynnig cefnogaeth briodol tra bod y disgyblion ar dasgau. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gyffredinol addas ac, yn yr arfer gorau, anogir y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athro. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon adeiladol i roi arweiniad clir iddynt ar sut i wella eu gwaith. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain ac eraill.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wedi eu hadolygu'n ddiweddar. Mae'r athrawon yn defnyddio profion safonol a phecyn asesu masnachol yn effeithiol i adnabod cryfderau i gynllunio ac i gynnig cymorth pellach i'r disgyblion sy'n tangyflawni. Mae hyn yn dechrau dylanwadu'n gadarnhaol ar wella safonau yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn briodol. Maent yn rhoi manylion defnyddiol am gyflawniadau disgyblion a'r camau nesaf yn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae ansawdd da'r gofal, y cymorth a’r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion.  Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac i sicrhau bod y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw’n heini.

Mae’r ysgol yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus trwy weithgareddau’r cwricwlwm, cyfnodau amser cylch a chyd-addoli perthnasol.  Trefnir cyfleoedd addas i fyfyrio ar bynciau cyfoes i ystyried plant llai ffodus na hwy mewn gwledydd fel Syria.

Mae’r cysylltiadau effeithiol sy’n bodoli gydag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol yn sicrhau cymorth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion a rhieni.  Enghreifftiau da yw’r Tîm o Amgylch y Teulu a’r seicolegydd addysgol sy’n cryfhau’r cefnogaeth a’r cymorth i deuluoedd.

Mae gan yr ysgol drefniadau trwyadl ar gyfer nodi a monitro disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o wybodaeth asesiadau ffurfiol ac asesiadau athrawon i adnabod y disgyblion hyn yn gynnar.  Mae’r athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol o ansawdd da i’r disgyblion hyn, sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd ar y cyd â’r rhieni.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol, lle caiff pawb eu parchu a’u cefnogi.  Mae’r ymdeimlad cynhwysol yn meithrin unigolion sy’n barod i helpu ei gilydd ac eraill.  Mae’r ethos hwn yn seiliedig ar weithredu polisïau a gweithdrefnau sy’n parchu hawliau pob unigolyn o fewn yr ysgol.  Sicrha’r ysgol ei bod yn cynnig yr un cyfleoedd a phrofiadau i’r holl ddisgyblion, beth bynnag fo’u cefndir cymdeithasol a’u gallu.

Mae’r ysgol yn delio’n effeithiol â’r achosion prin iawn o fwlio neu unrhyw fath arall o aflonyddu neu wahaniaethu.  Mae polisi cydraddoldeb a chynllun gweithredu anabledd yr ysgol yn effeithiol ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Ar y cyfan, mae cyflenwad priodol o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.  Mae buddsoddiad diweddar ar gyfer TGCh yn ychwanegu’n fuddiol at gyfleoedd y disgyblion i ddatblygu eu medrau.

Ceir arddangosfeydd addas i gefnogi’r dysgu a’r addysgu ond prin yw enghreifftiau o waith sy’n dathlu llwyddiannau’r disgyblion.

Mae’r adeiladau yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ac mae’r ardaloedd allanol yn ychwanegu at y cyfleoedd dysgu sydd ar gael yn y dosbarthiadau.  Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio’r ardaloedd allanol yn ddigon effeithiol i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.  Mae buarth yr ysgol yn addas, ond prin yw’r adnoddau i gyfoethogi amser hamdden y disgyblion.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi rhoi arweiniad clir a chadarn i'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth flaengar i godi safonau drwy gydweithio cadarnhaol gyda'r ddwy ysgol arall yn y trefniant uno. Mae hi'n awyddus i gynnwys staff y tair ysgol mewn prosesau i hybu gwelliannau. O ganlyniad, mae hi wedi cyflwyno nifer o weithdrefnau newydd i gynllunio datblygu medrau staff ar y cyd a monitro safonau gwaith disgyblion yn bwrpasol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn yn llawn ar safonau a systemau'r ysgol.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau'r ysgol a monitro a thargedu disgyblion yn effeithiol. Mae trefniadau rheoli perfformiad pwrpasol yn cynnig cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff ac yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu ac addysgu. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod bob aelod o staff yn rhan o'r broses a bod ganddynt darged sy'n cydblethu â blaenoriaeth yn y cynllun gwella ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac yn cefnogi'r pennaeth yn effeithiol yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae'r pennaeth wedi mireinio rôlau'r llywodraethwyr yn ddiweddar er mwyn datblygu eu medrau i fod yn rhan allweddol o weithdrefnau monitro'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith hwn wedi gwreiddio digon eto i'w galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol am ei pherfformiad. Maent yn ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion ac mae hyn yn cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Siarter Iaith, strategaethau asesu ar gyfer dysgu a pharatoi cydlynwyr ar gyfer y Fframwaith Cymhwyso Digidol. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad staff a phrofiadau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu prosesau hunanarfarnu effeithiol sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn llwyddiannus. Mae systemau cadarn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer gwella a chymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â gwelliannau yn bwrpasol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu wedi'i seilio ar dystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion, adolygu gwahanol agweddau ar y ddarpariaeth a dadansoddi data yn fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi cael digon o amser eto i ymsefydlu, gwreiddio a chael effaith lawn ar ddeilliannau disgyblion, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Yn unol â threfniadau'r pennaeth, mae camau effeithiol ar waith i ddatblygu rôl strategol y corff llywodraethol yn y broses monitro. Maent bellach yn rhan o'r broses o graffu ar lyfrau a monitro'r dysgu ac addysgu trwy arsylwi gwersi'n rheolaidd.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn fanwl a chynhwysfawr, gyda blaenoriaethau a thargedau gwella wedi eu nodi'n glir. Mae'r ddogfen yn deillio'n glir o ganfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella safonau dysgu disgyblion. Mae pob blaenoriaeth yn nodi targedau mesuradwy gydag amserlen, cyfrifoldebau staff a deilliannau tymor byr. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â rhaglen monitro drylwyr yr ysgol. Ers penodiad y pennaeth, mae tystiolaeth amlwg fod safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn gwella; gwelir hyn yn glir yng ngwaith ysgrifenedig y disgyblion. Mae'r ysgol wedi sicrhau cynnydd yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion ers yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni. Mae'r staff yn hysbysu rhieni yn dda am weithdrefnau'r ysgol, drwy anfon negeseuon testun a llythyru cyson. Mae polisi drws agored yn sicrhau bod gan rieni gyfleoedd rheolaidd i drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'u plant. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd anffurfiol hyn yn ogystal â chyfweliadau ffurfiol yn fawr iawn.

Mae'r cysylltiad a'r cydweithio â'r gymuned leol yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn ymweld â'r eglwys leol yn gyson ac yn ddiweddar wedi ymgyrchu yn y pentref i dynnu sylw'r trigolion i broblem baw cŵn. Maent yn diddori pentrefwyr yn achlysurol drwy gynnal gwasanaethau a chyngherddau yn yr ysgol. Mae'r profiadau hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gweithredu'n briodol o fewn eu cymuned.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli â'r cylch meithrin lleol sy'n cyfarfod yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda a chyflym yn y dosbarth meithrin. Mae trefniadau llwyddiannus gyda'r ysgol uwchradd leol i gynorthwyo'r disgyblion i drosglwyddo'n esmwyth rhwng un sector a'r llall. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae system effeithiol o gymedroli wedi ei sefydlu gydag ysgolion eraill i gynhyrchu proffiliau pwrpasol a defnyddiol i gynorthwyo athrawon wrth iddynt safoni gwaith y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu, er enghraifft athrawon penodol yn rhoi gwersi cerdd a chelf. Mae cymorthyddion dosbarth yn rhoi cefnogaeth effeithiol a chynhaliaeth werthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithiol. Mae prosesau rheoli perfformiad yn arwain yn effeithiol at gyfleoedd hyfforddi mewn meysydd priodol sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd â thargedau penodol y staff.

Mae amrediad da o adnoddau safonol yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd, nid yw staff yn defnyddio'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen yn ddigon pwrpasol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref. Mae staff yn rhan o lawer o rwydweithiau effeithiol gyda'r ysgol ffederal yn ogystal â gydag ysgolion eraill, sydd yn gyfrwng i godi safonau gwaith disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio i wella safonau rhesymu mathemateg a datrys problemau.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol ganran sylweddol o arian wrth gefn sydd wedi'i glustnodi i bwrpas; mae hyn wedi ei gytuno gyda'r awdurdod lleol. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dargedu a cheisio codi safonau llythrennedd a mathemateg ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau grwpiau neilltuol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian o ran safonau gwaith disgyblion a darpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602139 - Ysgol Gymuned Dwyran**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 43 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | 2 | 4 | 4 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 66.7 | 100.0 | 75.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 100.0 | 75.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | 50.0 | 50.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | 75.0 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 100.0 | 75.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602139 - Ysgol Gymuned Dwyran**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 43 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 4 | 7 | 4 | 4 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 28.6 | 75.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 85.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 14.3 | 66.7 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 28.6 | 25.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 14.3 | 25.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 14 | 14<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 14 | 14<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 14 | 9<br>64% | 5<br>36% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 14 | 14<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 14 | 10<br>71% | 4<br>29% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 14 | 13<br>93% | 1<br>7% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mrs Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Ms Dilys Ellis-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Manon Williams (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.